Gwybodaeth i Rieni 27/11/20

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Mae'r deuddydd diwethaf wedi bod yn brysur iawn yn yr ysgol felly gobeithiaf eich bod yn deall pam oedd neges ddoe yn weddol gryno. Bore Mercher rhwng 8 a 10yb cafwyd gwybodaeth fod dau unigolyn wedi derbyn canlyniadau prawf COVID positif. Nid oedd cysylltiad rhwng yr achosion hyn.

Heddiw hoffwn roi gwybodaeth bellach, ond maddeuwch os mae adegau ble mae sylwadau yn weddol annelwig gan fod gan bob aelod o'r ysgol yr hawl i breifatrwydd. Gofynnwn i chi beidio ceisio dyfalu enwau - mae nifer o enwau anghywir wedi cael eu hawgrymu gan ddisgyblion sydd yn rhoi camargraff o'r sefyllfa a'i heffaith ar ddosbarthiadau penodol.

Mae protocol penodol yn dechrau ar y pwynt yma, a wnaethon ni dilyn hwn trwy'r broses. Cysylltwyd gyda systemau TTP (Track-Trace-Prevent) y sir i dderbyn cyngor a chefnogaeth wrth weithredu ac adnabod yr unigolion oedd wedi cael eu heffeithio. Wrth wneud hwn, rhaid i ni fod yn geidwadol wrth adnabod unrhyw unigolyn oedd y cyswllt positif.

Mewn rhai achosion gall hwn arwain at ddosbarthiadau llawn yn cael eu hadnabod fel cysylltiadau, ond mewn eraill, ble mae unigolyn ond wedi treulio ychydig amser mewn dosbarth, gall hwn arwain at ran o'r dosbarth yn cael eu hadnabod fel cysylltiadau. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn cael eu trafod gyda'r staff TTP er mwyn adnabod pwy yn union sydd angen eu cynnwys fel cysylltiadau.

Mae rhai yn pryderu pan mae disgybl mewn cysylltiad gyda rhywun sydd nawr yn hunan-ynysu, ond nid oes angen poeni. Mae'r broses yn ceisio dal cysylltiadau cyn i unrhyw un ohonynt fod yn heintus. Nid oes angen i unrhyw un sy'n gyswllt i gyswllt ynysu, ac nid oes rhaid i deuluoedd cysylltiadau ynysu. Gall hwn arwain at frawd yn ynysu ond chwaer ddim.

Casglwyd y disgyblion oedd angen eu hynysu mewn ystafelloedd ar wahân a chyfathrebu gyda rhieni er mwyn iddynt fynd adref. Roedd ail set o ddisgyblion sydd yn teithio ar yr un bws wedi mynd trwy'r broses yn hwyrach yn y dydd wrth i ni ddod i wybod fwy.

Bydd disgyblion sydd yn hunan-ynysu yn derbyn gwaith - mae'r trefniadau hyn wedi eu gwneud ar frys felly bydd y broses yn datblygu ymhellach ar gyfer yr wythnos nesaf. Yn wahanol i'r sefyllfa mewn cyfnodau clo eraill, mae athrawon yn parhau i ddysgu gwersi i ddosbarthiadau fel arfer, felly mae hwn yn cyfyngu ar beth sydd yn bosib o ran gwersi byw.

Mae nifer fach iawn o blant eraill wedi dewis peidio dod mewn i'r ysgol. Yn anffodus mae hwn yn cael ei ddiffinio fel absenoldeb anawdurdodedig. Mewn rhai achosion mae'r athro yn nodi gwaith ar gyfer dysgu o bell ar gyfer unigolion yn y dosbarth sy'n ynysu, ond os nad oes disgybl yn y dosbarth yn ynysu ni fydd modd i'r athro darparu gwaith ychwanegol i unigolion sy'n dewis aros adref. Mae athrawon yn dysgu eu gwersi arferol ac mae hwn yn cyfyngu'r amser sydd ar gael ar gyfer dysgu o hirbell felly mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu'r disgyblion sy'n gorfod hunan-ynysu.

Bydd yr unigolion sy'n gorfod hunan-ynysu yn gwneud hwn am bythefnos ac os mae symptomau yn ymddangos disgwylir iddynt gael eu profi am COVID er mwyn atal unrhyw achosion ychwanegol. Bydd yr adran gynnal mewn cysylltiad rheolaidd dros yr amser hwn gydag unigolion gydag anghenion addysgol arbennig ac edrychwn ymlaen at weld pawb nol yn yr ysgol yn iach cyn diwedd y tymor.

Bydd bwletin arferol yr ysgol yn mynd allan i rieni ar ddydd Llun wythnos nesaf yn lle dydd Gwener yr wythnos hon - credaf eich bod wedi clywed digon o negeseuon wrthyf fi'r wythnos hon. Dymunaf y gorau i bob un ohonoch.

Diolch

Dr Rhodri Thomas, Pennaeth

Information for Parents 27/11/20

Dear Parent/Guardian,

The last two days have been very busy at school so I hope you understand why yesterday's message was fairly brief. Wednesday morning between 8 and 10am information was received that two individuals had received positive COVID test results. These cases were unrelated.

Today I would like to give further information, but please forgive me if there are times when comments are quite vague as all members of the school have the right to privacy. Please do not try to guess names - many incorrect names have been suggested by pupils which give a false impression of the situation and its effect on particular classes.

There is a specific protocol starting at this point, which we followed through to the end of the process. The county's TTP (Track-Trace-Prevent) systems were contacted for advice and support in the implementation and identification of the individuals affected. In doing this, we must be conservative in identifying any individual who was a contact of the positive case.

In some cases this can lead to full classes being identified as contacts, but in others, where an individual has only spent a short time in a class, this can lead to part of the class being identified as contacts. These situations are discussed with the TTP staff to identify exactly who needs to be included as contacts.

Some are concerned as a pupil has been in contact with someone who is now self-isolating, but there is no need to worry. The process tries to catch contacts before any of them become contagious. No contact of a contact needs to isolate, and families do not have to isolate contacts. This can lead to a brother being isolated but a sister not.

The pupils who needed to be isolated were collected in separate rooms and we communicated with parents in order for them to go home. A second set of pupils traveling on the same bus went through the process later in the day as we found out more.

Pupils who are self-isolating will be given work - these arrangements have been made rapidly so the process will develop further for next week. Unlike in other lock-downs, teachers are continuing to teach lessons in school to their classes, so this limits what is possible for live lessons.

A very few other children have chosen not to come to school. Unfortunately this is defined as an unauthorized absence. In some cases the teacher has identifies work for distance learning for isolated individuals in the classroom, but if no pupil in the class is isolated the teacher will not be able to provide additional work for individuals who choose to stay home. Teachers teach their usual lessons and this limits the time available for distance learning so they have to prioritize the pupils who have to self-isolate.

The individuals who have to self-isolate do this for two weeks and if symptoms appear they are expected to be tested for COVID to prevent any further outbreaks. The support department will be in regular contact over this time with individuals with special educational needs and we look forward to seeing everyone back at school healthy before the end of term.

The usual school bulletin will go out to parents on Monday next week instead of Friday this week - I think you've heard plenty of messages from me this week. I wish you all the best.

Thank you

Dr Rhodri Thomas
Headteacher